DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad Meddygfa Deulu (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Meddygfa South Street

Dyddiad yr Arolygiad: 19 Hydref 2016

Dyddiad Cyhoeddi: 20 January 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn**: 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan**: www.hiw.org.uk



ISBN Digidol 978-1-4734-8545-7


© Hawlfraint y Goron 2017

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 2

2. Cyd-destun ........ 3

3. Crynodeb ........ 4

4. Canfyddiadau ........ 5

    Ansawdd profiad y claf ........ 5

    Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........ 8

    Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........ 20

5. Y camau nesaf ........ 24

6. Methodoleg ........ 25

    Atodiad A ........ 27

    Atodiad B ........ 34

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o'r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas, neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad ym Meddygfa South Street, South Street, Bargoed, Caerffili, CF81 8SU ar 19 Hydref 2016. Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys rheolwr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad), adolygydd cymheiriaid sy'n feddyg teulu, adolygydd cymheiriaid sy'n rheolwr meddygfa a dau gynrychiolydd o Gyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd Meddygfa South Street yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Cynhelir arolygiadau o Feddygfeydd Teulu gyda rhybudd ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr i sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol
- Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth - Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

## 2. Cyd-destun

Mae Meddygfa South Street yn darparu gwasanaethau i tua 2,500 o gleifion yn ardal Bargoed Caerffili. Ceir meddygfa gangen ym Meddygfa Cefn Fforest Surgery, Bryn Road, y Coed Duon, NP12 3NA. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau meddyg teulu a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adnabyddir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae'r practis yn cyflogi tîm staff sy'n cynnwys un meddyg, un meddyg locwm, un nyrs, un rheolwr practis, un rheolwr practis cynorthwyol, un gwaedydd/derbynnydd ac un derbynnydd.

Mae'r practis yn cynnig amrediad o wasanaethau (fel y nodir yn y daflen wybodaeth i gleifion), gan gynnwys:

- Clinig cynenedigol
- Gwyliadwriaeth, brechu ac imiwneiddio plant
- Clinig pwysedd gwaed uchel
- Clinig asthma
- Clinig diabetes
- Clinig clefyd coronaidd y galon
- Clinig ceg y groth
- Clinig clefyd rhwystrol cronig y llwybr anadlu
- Clinig ffliw
- Gwasanaeth cwnsela
- Gwasanaeth rhoi'r gorau i ysmygu

## 3. Crynodeb

Archwiliodd AGIC sut yr oedd Meddygfa South Street yn bodloni'r gofynion gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Canfuom dystiolaeth yn gyffredinol fod Meddygfa South Street yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, roedd angen gwelliannau i sicrhau bod trefniadau cadarn ac wedi'u ffurfioli ar waith i gefnogi gofal diogel ac effeithiol.

Dyma'r hyn a ganfuom fod y practis yn ei wneud yn dda:

- Roedd y cleifion yn hapus gyda'r gwasanaeth a ddarperir
- Roedd y staff yn adnabod y cleifion yn dda ac roedd parhad gofal da
- Roedd amrediad eang o wybodaeth cleifion ar gael
- Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hapus yn eu swyddi ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda
- Roedd cofnodion cleifion o safon dda.

Dyma'r hyn yr argymellasom y gallai'r practis ei wella:

- Ymwybyddiaeth y staff o bolisi iechyd a diogelwch a chydymffurfiad y practis ag ef
- Adolygu a ffurfioli rhai agweddau ar systemau cyfathrebu mewnol
- Roedd angen hyfforddiant ar y staff mewn amddiffyn oedolion ac mae angen rhagor o fanylion mewn polisïau cysylltiedig
- Mae'n rhaid cyflwyno gweithdrefn recriwtio ffurfiol
- Mae angen adolygu nifer o bolisïau a gweithdrefnau, rhoi rhagor o fanylion ynddynt a'u trefnu'n well er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn gallu cynorthwyo staff yn effeithiol yn eu swyddi a'u cyfrifoldebau.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd profiad y claf*

**Siaradodd aelodau o'r Cyngor Iechyd Cymuned â chleifion gan ddefnyddio holiaduron i ganfod safbwyntiau cleifion. Cwblhawyd cyfanswm o 95 o holiaduron. Yn gyffredinol, roedd bodlonrwydd cleifion yn uchel iawn a rhoddasant adborth hynod gadarnhaol ar fynediad at apwyntiadau a'u perthynas â'r staff sy'n darparu gwasanaethau.**

**Roedd y staff yn adnabod y cleifion a'u teuluoedd/gofalwyr yn dda a chanfuom fod pobl yn cael eu trin gydag urddas a pharch gan y staff. Rydym wedi gofyn i'r practis sicrhau y darperir hyfforddiant i staff anghlinigol sy'n gweithredu fel hebryngwyr. Roedd gan y practis system ar waith i alluogi cleifion i godi pryderon/cwynion ac i gynnig adborth ar wasanaethau.**

Mae'r Cyngor Iechyd Cymuned wedi llunio adroddiad sy'n cynnig dadansoddiad o'r wybodaeth a gasglwyd. Mae'r adroddiad hwnnw ar gael yn Atodiad B. Roedd bodlonrwydd cleifion yn uchel iawn yn gyffredinol. Gwnaeth y cleifion sylwadau cadarnhaol am gyfeillgarwch y staff ac effeithlonrwydd y gwasanaeth yn benodol.

Awgrymwyd gennym y dylai'r practis ystyried darparu amrediad o seddi i sicrhau bod cleifion (y gallai fod ganddynt anawsterau symud) mor gyfforddus â phosibl wrth aros i gael eu gweld. Roedd sylwadau eraill a wnaed gan gleifion yn cynnwys cais am fwy o wybodaeth arbenigol am fethiant y galon ac am apwyntiadau ar benwythnosau.

| |
|---|
| *Mae profiad pobl o ofal iechyd yn un lle mae pawb yn cael ei drin ag urddas, parch, tosturi a charedigrwydd ac sy'n cydnabod ac yn diwallu anghenion corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac ysbrydol unigolion. (Safon 4.1-Gofal Gydag Urddas)* |

Canfuom fod pobl yn cael eu trin gydag urddas ac yn cael eu parchu gan y staff.

Gwelsom staff yn cyfarch cleifion yn bersonol a thros y ffôn mewn ffordd foesgar, gyfeillgar a chroesawgar ac yn eu trin gydag urddas a pharch. Roedd yn eglur bod y staff yn adnabod y cleifion a'u teuluoedd yn arbennig o dda ac roeddent yn rhoi pwyslais ar ddiwallu anghenion unigol cleifion gydag urddas a charedigrwydd.

Roedd y dderbynfa yn gaeedig a'r staff wedi eu gwahanu oddi wrth y cleifion gan ffenestri clir. Roedd hyn yn rhoi preifatrwydd i staff a oedd yn derbyn galwadau ffôn ac yn trafod anghenion cleifion. Fe'n hysbyswyd gan y staff hefyd y gallent ddefnyddio ystafelloedd preifat i drafod unrhyw faterion sensitif gyda chleifion i sicrhau cyfrinachedd. Roedd mannau bach ar wahân yn yr ystafell aros lle gallai'r cleifion aros mewn mwy o breifatrwydd, os oeddent yn dymuno.

Gwelsom yn y cofnodion a adolygasom fod y meddygon teulu wedi cofnodi caniatâd cleifion i archwiliadau ac wedi defnyddio ffurflenni caniatâd pan oedd hynny'n angenrheidiol ac yn briodol. Roedd y wefan hefyd yn cynnig gwybodaeth eglur a da am gyfrinachedd a'r defnydd o gofnodion meddygol.

Gwelsom fod y drysau i ystafelloedd ymgynghori a thriniaeth unigol yn cael eu cadw ar gau bob amser pan oedd y staff yn rhoi sylw i gleifion. Roedd hyn yn golygu bod y staff yn cymryd camau priodol i sicrhau preifatrwydd ac urddas y cleifion yn ystod ymgynghoriadau.

Fe'n hysbyswyd gan y staff bod y nyrs neu reolwr y practis yn gweithredu fel hebryngwyr ffurfiol fel rheol. Roedd hyn yn golygu, ar adegau, bod staff anghlinigol yn cael eu defnyddio yn y swyddogaeth hon. Nid oes unrhyw hyfforddiant yn cael ei ddarparu ar weithredu fel hebryngwr ar hyn o bryd, er bod polisi hebryngwr y practis yn nodi y dylai staff dderbyn hyfforddiant i weithredu yn y swyddogaeth hon. Cynghorasom y practis i sicrhau bod staff anghlinigol yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'r gofynion a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r swyddogaeth hon, ac yn cael eu hyfforddi ar eu cyfer.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod staff anghlinigol sy'n gweithredu fel hebryngwyr ffurfiol yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'r gofynion a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r swyddogaeth hon ac yn cael mynediad at ganllawiau cyfredol ar weithredu yn y swyddogaeth hon.***

*Rhaid i bobl sy'n cael gofal, a'u teuluoedd, gael eu grymuso i ddisgrifio eu profiadau wrth y rhai a ddarparodd eu gofal fel bod dealltwriaeth eglur o'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda, a rhaid iddynt gael ymateb agored a gonest. Dylai gwasanaethau iechyd gael eu trefnu gan anghenion y bobl a wasanaethir a mynd i'r afael â'r anghenion hynny a dangos eu bod yn gweithredu ar adborth ac yn dysgu ohono. (Safon 6.3-Gwrando a Dysgu o Adborth)*

Roedd proses gwynion ar waith a system i rymuso cleifion a'u teuluoedd/gofalwyr i gynnig adborth ar eu profiadau o ddefnyddio'r practis.

Roedd gan y practis weithdrefn ysgrifenedig ar waith i gleifion godi pryderon a chwynion. Roedd gwybodaeth am gwynion wedi ei harddangos mewn man cwbl amlwg ar hysbysfwrdd yn yr ystafell aros ac roedd taflenni ar gael hefyd. Roedd gwybodaeth ar y wefan hefyd. Roedd hyn yn golygu y gallai cleifion gael gafael ar y wybodaeth hon yn rhwydd gan y practis pe bai ei hangen arnynt. Roedd y weithdrefn ysgrifenedig yn darparu gwybodaeth sylfaenol ac nid oeddem yn gallu asesu a oedd wedi cael ei hadolygu'n ddiweddar. Fodd bynnag, roedd yn cydymffurfio'n llawn â gofynion 'Gweithio i Wella', y trefniadau cyfredol ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion) am ofal a thriniaeth y GIG yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am sut i gael mynediad at y Cyngor Iechyd Cymuned fel gwasanaeth eirioli wrth wneud cwynion, a gwelsom wybodaeth y Cyngor Iechyd Cymuned wedi ei harddangos yn amlwg yn y mannau aros.

Gwelsom fod y staff yn cadw cofnodion o gwynion. Ni fu unrhyw gwynion diweddar.

Roedd y practis yn casglu adborth cleifion trwy holiadur cleifion blynyddol a thrwy ddefnyddio holiaduron y Cyngor Iechyd Cymuned. Gwelsom hefyd fod y staff wedi cyflwyno system yn ddiweddar i gofnodi unrhyw adborth llafar a roddir gan gleifion. Dylai'r practis ystyried sut i annog a grymuso cleifion i ddarparu adborth fel hyn yn gyson.

Dywedodd y staff wrthym nad oedd unrhyw gleifion wedi dod yn eu blaenau i fynegi diddordeb mewn grŵp cyfranogiad cleifion, felly nid oeddent wedi bwrw ymlaen â hyn fel ffordd arall o ddarparu adborth am wasanaethau.

## *Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol*

**Canfuom dîm staff a oedd yn canolbwyntio ar y claf ac wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'w cleifion, yr oeddent yn eu hadnabod yn dda ac a oedd yn derbyn parhad gofal da. Fodd bynnag, roedd angen gwelliannau i sicrhau bod trefniadau cadarn ac wedi'u ffurfioli ar waith i hybu gofal cleifion diogel ac effeithiol.**

**Roedd gwybodaeth ar gael i gleifion i'w helpu i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles eu hunain ac i gyfeirio gofalwyr at gymorth a chefnogaeth sydd ar gael iddynt. Roedd taflen bractis lawn a manwl ar gael i'r cleifion.**

**Roedd trefniadau addas ar waith i sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu rhagnodi a'u hadolygu'n ddiogel ac i ddysgu o unrhyw ddigwyddiadau diogelwch cleifion. Roedd y sampl o gofnodion cleifion a welsom o safon dda.**

**Mae angen gwelliannau i sicrhau bod y practis yn cydymffurfio â pholisi iechyd a diogelwch ac i sicrhau bod asesiadau risg llawn yn cael eu cynnal. Mae'n rhaid i'r practis allu dangos ei fod wedi asesu a chymryd camau i leihau gymaint â phosibl unrhyw risgiau yn yr amgylchedd, peryglon tân, rheoli heintiau a chamau mewn achos brys.**

**Roedd systemau cyfathrebu mewnol ar waith ond mae angen eu hadolygu a'u ffurfioli er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi gofal cleifion effeithiol yn llawn.**

**Mae angen rhagor o fanylion yn y polisi amddiffyn plant a'r polisi amddiffyn oedolion agored i niwed ac nid oedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant cyfredol yn y meysydd hyn.**

### Cadw'n iach

*Mae pobl wedi'u grymuso ac yn cael eu helpu i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u lles eu hunain ac mae gofalwyr am unigolion sy'n methu rheoli eu hiechyd a'u lles eu hunain yn cael cymorth. Mae gwasanaethau iechyd yn gweithio mewn partneriaeth gydag eraill i ddiogelu a gwella iechyd a lles pobl a lleihau anghydraddoldebau iechyd. (Safon 1.1)*

Roedd amrediad ardderchog o wybodaeth ar gael i helpu cleifion i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles eu hunain. Roedd gwybodaeth i gynorthwyo a chyfeirio gofalwyr at gymorth a chefnogaeth sydd ar gael iddynt.

Gwelsom amrywiaeth o ddeunyddiau hybu iechyd wedi'u harddangos yn y mannau aros a oedd yn hawdd i'r cleifion eu cyrraedd. Roedd y practis hefyd yn cynnal gwasanaeth 'Byw'n Dda' a oedd yn rhagweithiol o ran hyrwyddo archwiliadau iechyd a chlinig rhoi'r gorau i ysmygu i gynorthwyo cleifion gyda'r gwelliannau iechyd hyn.

Roedd gwybodaeth ar gael i ofalwyr ar hysbysfyrddau yn y man aros, roedd y practis yn cadw cofrestr gofalwyr ac roedd rheolwr y practis yn gweithredu fel hyrwyddwr y gofalwr i hyrwyddo gwybodaeth am anghenion gofalwyr.

## Gofal diogel

*Mae iechyd, diogelwch a lles pobl yn cael eu hybu a'u diogelu'n weithredol. Mae risgiau'n cael eu hadnabod, eu monitro a lle y bo'n bosibl, yn cael eu lleihau neu eu hatal. (Safon 2.1-Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch)*

Canfuom yn ystod taith o gwmpas adeilad y practis fod yr holl fannau y mae cleifion yn eu defnyddio yn lân, yn daclus ac yn rhydd rhag annibendod a oedd yn lleihau'r perygl o faglu a chwympo. Roedd adeilad y practis wedi ei gynnal a'i gadw'n dda yn gyffredinol, y tu mewn a'r tu allan.

Nid oedd unrhyw bolisi iechyd a diogelwch ar waith i gynnig canllawiau i'r staff ar ofynion iechyd a diogelwch ar gyfer y practis yn ei gyfanrwydd. Roedd polisïau eraill yn trafod agweddau ar iechyd a diogelwch fel rheoli gwastraff. Fodd bynnag, yn gyffredinol, roedd polisïau'n cynnwys manylion sylfaenol ac mae angen eu hadolygu a'u diweddaru'n llawn. Nid oedd y polisïau a oedd ar gael yn bodloni'r holl ofynion iechyd a diogelwch, fel offer sgrin arddangos, diogelwch tân a chodi a chario. Cynghorwyd y staff i ymgynghori â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r holl ofynion iechyd a diogelwch perthnasol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod polisi iechyd a diogelwch llawn, lleol a chyfredol ar waith sy'n rhoi sylw i'r holl feysydd gorfodol.***

Dywedodd y staff wrthym y bu diffyg sylw i faes iechyd a diogelwch ers i un aelod o staff (a oedd yn gyfrifol am iechyd a diogelwch) adael rhai blynyddoedd yn ôl. Roedd hyn yn golygu nad oedd y staff wedi derbyn unrhyw hyfforddiant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o ran deddfwriaeth iechyd a diogelwch.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n ofynnol i'r practis hysbysu AGIC am y camau a gymerir i sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant o ran deddfwriaeth iechyd a diogelwch.***

Canfuom fod gan y practis bolisi offer sgrin arddangos. Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddynt, nid oedd y staff erioed wedi cael cynnig asesiad risg ffurfiol o'u mannau gwaith/desg yn y swyddfa na chymorth ar sut i gwblhau asesiad unigol, a hwythau'n ddefnyddwyr cyfrifiaduron rheolaidd.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n ofynnol i'r practis hysbysu AGIC am y camau a gymerir i sicrhau bod iechyd, lles a diogelwch staff (sy'n ddefnyddwyr rheolaidd cyfrifiaduron yn y gweithle), wedi cael eu hasesu, yn unol â deddfwriaeth iechyd a diogelwch bresennol.***

Nid oedd unrhyw system ar waith o ran Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd. Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i gyflogwyr reoli datguddiad i sylweddau peryglus i atal salwch trwy gydymffurfio â Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002. Cytunodd rheolwr y practis i roi sylw i hyn cyn gynted â phosibl.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002.***

Er na welsom unrhyw risgiau a oedd yn peri pryder uniongyrchol, nid oeddem yn sicr bod y risgiau wedi cael eu hasesu'n llawn na bod camau wedi cael eu cymryd i sicrhau eu bod cyn lleied â phosibl. Nid oedd y staff wedi cwblhau asesiad risg amgylcheddol ers 2010, nac asesiad risg tân ers 2012, ac ni ddarparwyr unrhyw hyfforddiant tân diweddar. Roedd cynllun gweithredu argyfwng tân ar waith a oedd wedi cael ei gwblhau yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Mae dyletswydd gyfreithiol i asesu'r risgiau i iechyd a diogelwch cyflogeion (a risgiau i iechyd a diogelwch unigolion sy'n ymweld â'r safle). Cytunodd rheolwr y practis i unioni hyn cyn gynted â phosibl.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn cynnal asesiadau risg amgylcheddol ac asesiadau risg tân er mwyn nodi a rheoli unrhyw risgiau yn amgylchedd y practis.***

Esboniodd rheolwr y practis ei risgiau busnes a'i gynlluniau wrth gefn i ni. Roedd y practis wedi cyfeillio â phractis cyfagos ac fe'n hysbyswyd gan y staff eu bod yn gweithio mewn partneriaeth i gynnig cefnogaeth mewn argyfyngau. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod y drefn hon yn anffurfiol ac ni allem fod

yn sicr bod cytundebau ffurfiol ar waith i reoli argyfyngau. Roedd cynllun ar gyfer rheoli argyfyngau iechyd arwyddocaol, ond mae angen diweddaru hwn er mwyn sicrhau ei fod yn dal yn berthnasol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod trefniadau argyfwng wedi'u ffurfioli ar waith o ran cynllunio wrth gefn a rheoli argyfyngau iechyd arwyddocaol.***

| |
|---|
| *Mae angen i gamau effeithiol i atal a rheoli heintiau fod yn fusnes i bawb a rhaid iddynt fod yn rhan o arfer pob dydd ym maes gofal iechyd ac yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael fel bod pobl yn cael eu diogelu rhag heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd y gellir eu hatal. (Safon 2.4- Atal a Rheoli Heintiau a Dadhalogi)* |

Cadarnhaodd y staff fod ganddynt fynediad at offer amddiffynnol personol fel menig a ffedogau plastig untro i leihau croes-heintio. Roedd y mannau triniaeth glinigol a welsom yn amlwg yn lân. Darperir cyfleusterau golchi a sychu dwylo mewn mannau clinigol ac yn y toiledau. Roedd hylif diheintio dwylo ar gael yn barod o gwmpas y practis. Gwelsom fod gwastraff wedi cael ei wahanu i fagiau/cynwysyddion gwahanol liwiau er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei storio a'i waredu'n gywir. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n ddiogel tan y gellid ei gasglu'n ddiogel.

Cadarnhaodd trafodaeth â'r staff nyrsio fod yr holl offerynnau a ddefnyddir yn ystod mân-lawdriniaethau yn cael eu prynu fel pecynnau di-haint untro. Roedd hyn yn osgoi'r angen i ddefnyddio offer sterileiddio/dadheintio.

Roedd dau wahanol bolisi rheoli heintiau ar waith ac ni allem fod yn sicr bod yr holl staff yn ymwybodol o ba bolisi oedd yn cael ei ddefnyddio ar y pryd. Roedd un yn fanwl ac yn gyffredinol ac roedd diffyg manylion cyffredinol yn y polisi arall. Mae angen adolygu'r polisi, ei ddiweddaru, darparu manylion penodol i'r practis a sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran y polisi.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod polisi rheoli heintiau eglur ar waith, bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran y polisi a bod y polisi ar gael yn rhwydd i'r holl staff.***

Dywedodd y staff wrthym nad oeddent wedi cynnal unrhyw asesiad nac archwiliad i asesu neu fonitro'r amgylchedd ar gyfer risgiau rheoli heintiau. Er

na welsom unrhyw risgiau rheoli heintiau y gellid eu nodi ar unwaith, mae'n rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn gallu dangos cydymffurfiad â gweithdrefnau rheoli heintiau.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod systemau ar waith i fonitro safonau rheoli heintiau a chymryd camau i gydymffurfio â chanllawiau rheoli heintiau.***

Amlygodd sgyrsiau ag aelodau uwch y tîm staff fod disgwyl i'r holl staff clinigol sicrhau eu bod yn derbyn brechiadau Hepatitis B fel sy'n ofynnol. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw system ar waith i gadw tystiolaeth o frechiadau neu gofnodion imiwnedd mewn ffeiliau staff unigol. Roedd hyn yn golygu na allem fod yn sicr, ar adeg yr arolygiad, bod y practis wedi cymryd camau priodol i ddiogelu cleifion ac unigolion sy'n gweithio yn y practis.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n ofynnol i'r practis ddarparu tystiolaeth i AGIC o frechiadau Hepatitis B a chofnodion imiwnedd dilynol ar gyfer holl aelodau'r tîm clinigol.***

*Mae pobl yn cael meddyginiaeth am y rheswm cywir, yn cael y feddyginiaeth gywir, y dos cywir ohoni a hynny ar yr amser cywir. (Safon 2.6)*

Canfuom fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer rhagnodi meddyginiaethau i gleifion yn ddiogel.

Gallai cleifion gael mynediad at bresgripsiynau amlroddadwy trwy alw i mewn i'r feddygfa yn bersonol. Roedd y practis yn defnyddio llyfr fformiwlâu'r bwrdd iechyd[1].

[1] Mae'r llyfr fformiwlâu yn rhestru'r holl feddyginiaethau sydd wedi'u cymeradwyo i'w defnyddio ym meysydd gofal sylfaenol ac eilaidd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Cynhaliwyd adolygiadau meddyginiaeth mewn nifer o ffyrdd, naill ai'n oportiwnistaidd pan oedd cleifion yn mynychu apwyntiadau, trwy glinigau clefydau cronig, neu, mewn achosion lle'r oedd cleifion yn cymryd chwech o feddyginiaethau neu fwy, trwy argraffu rhestr a threfnu adolygiadau meddyginiaeth penodol ar gyfer y cleifion hyn.

Roedd trefniadau ar waith i gael gwared ar feddyginiaeth nad oedd ei hangen ar gleifion mwyach o restrau presgripsiynau amlroddadwy.

Roedd fferyllydd a oedd yn gweithio ar draws ei Rwydwaith Gofal Cymdogaeth[2] ac yn cynorthwyo'r practis. Roedd y cymorth yn cynnwys craffu ar bresgripsiynau amlroddadwy a rhagnodi meddyginiaethau ar gyfer clefydau cronig. Dywedodd y staff wrthym eu bod hefyd yn cynnal archwiliadau trwy eu Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth.

Gwelsom o'r cofnodion cleifion fod rhai achosion lle nad oedd cleifion diabetig Math 2 yn derbyn statinau[3] ar bresgripsiwn ar y pryd ac nid oedd y rhesymau am hyn wedi eu cofnodi yng nghofnodion cleifion bob amser. Mae angen i'r practis sicrhau pan fydd arfer rhagnodi unigol yn wahanol i'r canllawiau a argymhellir bod y rhesymau am y penderfyniad yn cael eu cofnodi yn eglur, e.e. rhagnodi statinau ar gyfer diabetes Math 2. Rydym wedi gofyn felly i'r practis adolygu'r holl gleifion diabetig Math 2 i sicrhau rhagnodi cyson a manylion digonol mewn cofnodion.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis adolygu pob claf diabetig Math 2 er mwyn sicrhau bod statinau'n cael eu rhagnodi'n gyson a bod manylion digonol yn cael eu cadw pan fo arfer unigol yn wahanol i'r canllawiau a argymhellir.***

*Mae'r gwasanaethau iechyd yn hybu ac yn diogelu lles a diogelwch plant ac*

---

[2] **Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth** yw'r term a ddefnyddir ar gyfer clystyrau practisau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Grŵp o feddygon teulu a phractisau a bennir yn lleol gan Fwrdd Iechyd Lleol GIG Cymru yw clwstwr practisau. Sefydlwyd Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth gyntaf yn 2010. Maent yn dod â phractisau meddygon teulu, Nyrsio Ardal, Eiddilwch, Iechyd Cyhoeddus Cymru, gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol a chymunedol a'r sector gwirfoddol at ei gilydd.

[3] Cyffuriau lleihau colesterol yw **statinau**

*oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu'n wynebu risg ar unrhyw adeg. (Safon 2.7- Diogelu Plant a Diogelu Oedolion sy'n Wynebu Risg)*

Roedd arweinydd neilltuedig ar gyfer amddiffyn plant. Roedd polisi amddiffyn plant ar waith, ond nid oedd hwn yn cynnig digon o fanylion yn egluro beth yw camdriniaeth, y gwahanol fathau o gamdriniaeth na swyddogaethau a chyfrifoldebau staff o ran hysbysu am gamdriniaeth. Roedd siart llif a oedd yn cynnwys rhifau cyswllt lleol ar gyfer hysbysu. Cynghorwyd y staff i ddiwygio'r polisi er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau Cymru Gyfan, fel ei fod yn llywio staff wrth nodi a rheoli pob mater amddiffyn plant.

Roedd polisi ar waith ar amddiffyn oedolion agored i niwed, ond roedd diffyg manylion a rhifau cyswllt lleol ar gyfer hysbysu am unrhyw faterion o bryder yn hwn hefyd. Cynghorwyd y staff i ddiwygio'r polisi er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau Cymru gyfan, fel ei fod yn llywio staff wrth nodi a rheoli pob mater amddiffyn oedolion agored i niwed.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen adolygu a diweddaru'r polisïau amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion agored i niwed er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys manylion digonol, rhifau cyfeirio lleol a'u bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau Cymru Gyfan.***

Roedd y staff wedi derbyn hyfforddiant amddiffyn plant 10 mlynedd yn ôl ac nid oedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn oedolion. Ni allem fod yn sicr felly bod y staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol i nodi a rheoli materion yn ymwneud ag amddiffyn plant ac oedolion.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn gyfredol o ran eu hyfforddiant amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed ar lefel sy'n briodol i'w swydd.***

Roedd y staff yn tynnu sylw at achosion amddiffyn plant ac oedolion ar y system electronig fel bod staff yn ymwybodol o'r achosion hyn. Roedd cofrestrau ar waith i gofnodi'r cleifion hynny a oedd yn agored i niwed, fel cleifion ag anghenion iechyd meddwl, anableddau dysgu a gofalwyr. Disgwyliwyd i weithiwr cymdeithasol ddechrau'n fuan i ddarparu cymorth i bractisau ar draws y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth.

## Gofal effeithiol

*Dylai gofal, triniaeth a phrosesau penderfynu adlewyrchu arfer gorau sy'n seiliedig ar*

*dystiolaeth i sicrhau bod pobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir i ddiwallu eu hanghenion unigol. (Safon 3.1- Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol)*

Roedd gan y practis drefniadau addas ar waith i adrodd a dysgu o ddigwyddiadau diogelwch cleifion a digwyddiadau arwyddocaol.

Esboniodd staff uwch yn y practis fod digwyddiadau diogelwch cleifion a digwyddiadau arwyddocaol yn cael eu hadolygu a'u trafod ar sail ad hoc yn ôl yr angen. Edrychwyd ar gofnodion a oedd yn cadarnhau bod adolygiadau o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal gydag aelodau perthnasol o dîm y practis yn dod at ei gilydd yn ôl yr angen a chamau yn cael eu rhannu â'r staff.

Gwelsom fod un digwyddiad arwyddocaol wedi cael ei gofnodi tri mis yn ôl, ond nad oedd nodiadau ar hyn wedi cael eu teipio eto. Gwnaethom gynghori'r staff i geisio sicrhau bod hyn yn cael ei wneud cyn gynted â phosibl, fel bod y staff yn cofio'r manylion llawn ac yn gallu sicrhau cofnodi llawn, cywir a ffurfiol mewn ffordd amserol.

Gwelsom fod y staff yn adolygu digwyddiadau arwyddocaol yn flynyddol, gan fonitro'n anffurfiol ar gyfer themâu a thueddiadau rhwng yr adegau hyn. Gallai tîm y practis ystyried ffurfioli'r trefniadau sydd ar waith, gan drefnu cyfarfodydd rheolaidd i adolygu'r holl ddigwyddiadau, pryderon ac adborth gan gleifion yn gyffredinol, i gynorthwyo gyda'r gwaith o fonitro a gwneud gwelliannau cyffredinol parhaus i wasanaethau.

*Wrth gyfathrebu â phobl mae gwasanaethau iechyd yn diwallu anghenion unigolion o ran iaith a chyfathrebu mewn modd rhagweithiol. (Safon 3.2- Cyfathrebu'n Effeithiol)*

Dywedodd y staff wrthym y byddent yn cynhyrchu gwybodaeth ar gyfer cleifion mewn gwahanol fformatau ar gais ac y gallent ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu ar y pryd yn ôl yr angen.

Roedd gan y practis systemau ar gyfer rheoli cyfathrebu allanol a mewnol, ond roedd angen ffurfioli'r rhain mewn rhai achosion. Gwelsom fod gan y staff drefn lle'r oeddent yn sganio'r holl ohebiaeth a dderbyniwyd gan y practis ar y system yn ystod cyfnodau mwy tawel y prynhawn. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd gan y staff nad oeddent bob amser yn llwyddo i sganio'r holl ohebiaeth bob dydd ac nid oedd polisi ffurfiol ar waith a oedd yn nodi amserlenni ar gyfer trosglwyddo gohebiaeth. Clywsom hefyd fod meddygon, ar brydiau, yn cymryd gohebiaeth o'r pentwr er mwyn gweithredu mewn ffordd fwy amserol. Roedd hyn yn golygu y gellid colli rhai camau o'r broses o sicrhau bod cofnodion cleifion yn gwbl gyfredol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod proses wedi'i ffurfioli ar waith, a bod yr holl staff yn ei deall ac yn cydymffurfio â hi, o ran rheoli gohebiaeth a dderbynnir gan y practis, a sicrhau bod hyn yn digwydd mewn ffordd gyson ac amserol.***

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn derbyn crynodebau rhyddhau cleifion o faes gofal eilaidd yn electronig o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac mewn ffordd brydlon a oedd yn helpu i sicrhau bod ganddynt wybodaeth gyfredol am gleifion. Fodd bynnag, roedd heriau weithiau wrth dderbyn crynodebau rhyddhau gan fyrddau iechyd eraill, yn enwedig y cleifion hynny sy'n cael eu rhyddhau o Ysbyty'r Tywysog Siarl. Dywedodd y staff wrthym fod y crynodebau hyn o ansawdd gwael weithiau. Roedd y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth yn rhoi sylw i hyn. Roedd system ar waith ar gyfer sicrhau bod crynodebau rhyddhau yn cael eu rhoi i'r meddyg mewn ffordd amserol.

Gwelsom fod llyfr negeseuon ar gael yr oedd y staff yn ei ddefnyddio i drosglwyddo negeseuon rhyngddynt eu hunain, er enghraifft, pan dderbynnir cais i glaf gael ei ffonio. Fodd bynnag, canfuom o'i archwilio nad oedd yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd, ac nad oedd negeseuon yn cael eu llofnodi'n gyson i nodi bod staff wedi darllen y neges ac wedi gweithredu arni. Roedd hyn yn golygu bod negeseuon yn tueddu i gael eu trosglwyddo rhwng aelodau staff mewn ffordd fwy anffurfiol. Gwnaethom gynghori'r practis y dylai fod system ar waith i ddangos trywydd archwilio ac atebolrwydd o ran gweithredu ar sail negeseuon.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r staff sicrhau bod proses fewnol eglur ar waith sy'n dangos atebolrwydd o ran rhannu negeseuon a chymryd camau yn eu sgil.***

Roedd rhai o'r systemau cyfathrebu mewnol a oedd ar waith yn golygu bod gwaith yn cael ei ailadrodd wrth i amser gael ei dreulio yn sganio dogfennau yn ogystal â'u ffeilio mewn cofnodion papur. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn symud i system electronig ond nad oeddent yn teimlo'n ddigon sicr ynghylch y system electronig i ddibynnu arni'n llwyr, a'u bod yn cadw cofnodion papur o'r holl ddogfennau hefyd felly. Gwnaethom gynghori'r staff i adolygu systemau cyfathrebu mewnol i ystyried sut y gellid eu symleiddio a'u ffurfioli i gefnogi gofal cleifion effeithiol a'r defnydd gorau o amser y staff.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis adolygu'r holl systemau cyfathrebu mewnol i ystyried a ellid gwneud gwelliannau ac i sicrhau bod ffurfioli ac atebolrwydd digonol wedi eu cynnwys yn y systemau.***

| |
|---|
| *Mae trefniadau da ar gyfer cadw cofnodion yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn cael gofal effeithiol a diogel. Rhaid i wasanaethau iechyd sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n unol â deddfwriaeth a chanllawiau ar safonau clinigol. (Safon 3.5-Cadw Cofnodion)* |

Edrychasom ar sampl ar hap o gofnodion cleifion electronig ar gyfer pob aelod o staff clinigol sy'n gweithio yn y practis, a chanfuom safon dda iawn o ran cadw cofnodion yn gyffredinol.

Roedd nodiadau'n cynnwys manylion digonol ar ymgynghoriadau rhwng staff clinigol a chleifion ac roedd yn bosibl canfod canlyniadau ymgynghoriadau a'r cynllun gofal ar gyfer y claf.

## **Gofal ag urddas**

| |
|---|
| *Rhaid i bobl gael gwybodaeth lawn am eu gofal a honno'n hygyrch, yn ddealladwy ac mewn iaith a dull sy'n ystyriol o'u hanghenion i'w galluogi a'u helpu i wneud penderfyniad gwybodus am eu gofal fel partner cyfartal (Safon 4.2- Gwybodaeth ar gyfer cleifion)* |

Roedd gwybodaeth i gleifion am wasanaethau'r practis ar gael yn nhaflen y practis. Roedd hon yn gynhwysfawr ac yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol, gan gynnwys manylion tîm y practis, oriau agor, y system apwyntiadau, y weithdrefn ar gyfer cael gafael ar bresgripsiynau amlroddadwy a sut y gallai cleifion wneud cwyn. Roedd gwybodaeth gynhwysfawr ar gael ar wefan y practis hefyd. Gwelsom fod rhif ffôn anghywir ar wefan y practis ar gyfer y gwasanaeth y tu allan i oriau, a chywirwyd hyn gan reolwr y practis ar unwaith.

Fe'n hysbyswyd y byddai taflen y practis yn cael ei chynhyrchu mewn fformatau ac ieithoedd eraill ar gais. Gwnaethom gynghori'r practis i wneud gwybodaeth ar gael yn y Gymraeg ac mewn fformatau eraill yn unol ag anghenion poblogaeth y practis. Dylai'r practis ystyried sut i wneud taflen y practis mor hygyrch â phosibl i'r cleifion hynny sy'n siarad gwahanol ieithoedd neu'r cleifion hynny sydd angen print bras neu fformatau hygyrch eraill, mewn ffordd ragweithiol.

Roedd gan y practis ddolen sain a ddefnyddiwyd i gynorthwyo cyfathrebu â'r cleifion hynny ag anawsterau clywed.

Roedd amrediad o wybodaeth wedi'i harddangos ac ar gael yn barod ym man aros y practis. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am grwpiau cymorth lleol, cyngor hybu iechyd a rheolaeth hunanofal o gyflyrau cysylltiedig ag iechyd.

Oherwydd maint bach y practis a'r tîm staff, yr oedd llawer ohonynt wedi bod yn gweithio yn y practis ers 20 mlynedd a mwy, roedd parhad da o ran gofal a thriniaeth y cleifion.

## Gofal amserol

*Mae pob agwedd ar ofal yn cael ei darparu mewn ffordd amserol gan sicrhau bod pobl yn cael eu trin ac yn cael gofal yn y ffordd gywir, yn y lle cywir a chyda'r staff cywir. (Safon 5.1-Mynediad Amserol)*

Roedd y cleifion yn gallu trefnu apwyntiadau yn bersonol yn y practis, dros y ffôn ac ar-lein. Roedd gwasanaeth atgoffa neges destun ar waith. Gallai cleifion drefnu apwyntiadau brys ar yr un diwrnod ac roedd apwyntiadau mater o drefn ar gael o fewn 48 awr. Dywedodd y staff wrthym y byddent bob amser yn ceisio dod o hyd i le i unrhyw un a oedd angen apwyntiad ar frys ar yr un diwrnod. Gwelsom un claf yn galw i mewn am bigiad ffliw heb apwyntiad, ac roedd y nyrs yn gallu ei ffitio i mewn ar unwaith. Rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol mewn holiaduron am fynediad at apwyntiadau.

Er nad oedd y feddygfa gangen yn cael ei defnyddio i roi mynediad at ymgynghoriadau i gleifion fel rheol, dywedodd y staff y gellid trefnu hyn os oedd angen.

Roedd y tîm nyrsio yn gallu gweld cleifion a oedd yn cyrraedd gyda mân-afiechydon cyffredinol (a ddisgrifir fel rhai nad ydynt yn frys) os oedd angen. Roedd y tîm nyrsio hefyd yn rhedeg nifer o glinigau ar gyfer cleifion â chyflyrau iechyd cronig, fel y gallent gael mynediad at y gofal a'r driniaeth mae eu hangen arnynt heb orfod gweld meddyg.

Esboniodd y staff y broses atgyfeirio a gwelsom fod gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod atgyfeiriadau brys yn cael sylw ar unwaith a bod atgyfeiriadau mater o drefn yn cael eu prosesu mewn ffordd systematig. Gellid gwneud atgyfeiriadau electronig o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac roedd systemau ar waith i brosesu atgyfeiriadau mewn ffordd amserol at fyrddau iechyd allanol. Roedd system ar waith i wirio bod atgyfeiriadau brys neu atgyfeiriadau canser tybiedig brys wedi cael eu derbyn.

## Gofal unigol

*Mae gwasanaethau iechyd yn sefydlu cydraddoldeb a hawliau dynol ar draws swyddogaethau a threfniadau cyflenwi gwasanaethau iechyd yn unol â'r gofynion statudol gan gydnabod amrywiaeth y boblogaeth a hawliau unigolion dan ddeddfwriaeth ar gydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol (Safon 6.2-Hawliau Pobl)*

Roedd y tîm yn adnabod y cleifion yn dda ac yn gwneud addasiadau ar sail y wybodaeth hon am anghenion unigol pobl.

Adeiladwyd y practis yn bwrpasol fel cyfleuster gofal iechyd ymarfer cyffredinol tua 26 mlynedd yn ôl. Roedd ramp a mynedfa wastad yn ei gwneud yn hygyrch i gleifion ag anawsterau symud a'r cleifion hynny sy'n defnyddio cadair olwyn.

Roedd arwydd electronig a oedd yn dynodi pan oedd y staff yn barod i weld cleifion. Roedd y staff yn adnabod y cleifion yn dda a gwelsom staff y dderbynfa yn galw cleifion i'w hapwyntiadau pan oedd angen cymhellion ychwanegol.

Yn gyffredinol, roedd trefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd cleifion. Fodd bynnag, gwelsom fod cofnodion papur cleifion yn cael eu storio y tu ôl i'r dderbynfa ar y pryd ac nad oeddent dan glo. Roedd drws a oedd yn caniatáu mynediad rhwng y dderbynfa a'r man aros y gellid ei gloi, er i ni sylwi bod hwn yn tueddu i fod heb ei gloi ac yn agored er mwyn hwyluso mynediad. Roedd y drws o ddyluniad 'drws stabl' ac roedd y rhan uchaf yn aros ar agor fel rheol. Roedd hyn yn golygu na allem fod yn sicr bod digon o ddiogelwch i atal mynediad heb awdurdod at gofnodion cleifion yn y fan hon.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod cofnodion papur cleifion yn cael eu storio yn unol â gofynion deddfwriaeth genedlaethol. Yn benodol, bod cofnodion cleifion sy'n cael eu storio y tu ôl i'r dderbynfa ar hyn o bryd yn cael eu storio'n ddiogel.***

## *Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth*

**Roedd gan y practis strwythur rheoli eglur ar waith. Canfuom dîm staff a oedd yn canolbwyntio ar y claf a ddywedodd wrthym eu bod yn cael eu cefnogi’n dda.**

**Mae angen gwelliannau i sicrhau bod gweithdrefn recriwtio wedi’i ffurfioli ar waith, bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn cael eu gwneud yn gyfredol a bod amser rheoli digonol i oruchwylio gofynion hyfforddiant parhaus a gwella, adolygu a datblygu’r system yn gyffredinol.**

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

*Mae llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol sy’n gyson â maint a chymhlethdod y gwasanaeth iechyd yn hanfodol i gyflenwi gofal diogel, effeithiol sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn modd cynaliadwy.*

Yn gyffredinol, canfuom dîm staff sefydlog a oedd yn canolbwyntio ar y claf ac roedd y staff yn gadarnhaol am yr amgylchedd gwaith. Dywedodd rheolwr y practis wrthym yr hoffai wella dirprwyaeth yn y practis er mwyn helpu i sicrhau bod pawb yn gyfrifol am wahanol agweddau ar y gwaith ac i sicrhau bod meysydd yn gyfredol. Gwelsom fod rheolwr y practis hefyd yn cyflawni dyletswyddau derbynfa ochr yn ochr â’i swyddogaeth rheoli’r practis ac roedd hyn yn golygu bod llai o amser wedi’i neilltuo i ganolbwyntio ar wella, adolygu a diweddaru systemau.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae’n rhaid i’r practis sicrhau bod gan reolwr y practis ddigon o amser ar gael i alluogi’r staff i gyflawni eu cyfrifoldebau.***

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallant fynd at y rheolwyr i godi pryderon ac yn teimlo eu bod yn derbyn cefnogaeth dda. Roedd dau bolisi chwythu’r chwiban ar wahân ar waith ac ni allem fod yn sicr bod y staff yn eglur ynghylch pa un oedd yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd na bod yr holl staff wedi cael eu hysbysu am y polisi hwn.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai’r staff egluro pa bolisi chwythu’r chwiban sydd ar waith ar hyn o bryd a dylent allu dangos bod yr holl staff wedi cael eu hysbysu am y polisi hwn.***

Roedd gan y practis amrediad o bolisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig perthnasol i lywio staff wrth eu gwaith o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, roedd y rhain yn tueddu i gael eu storio mewn gwahanol fannau, yn electronig ac mewn fformat copi caled, a gwelsom fod y copïau a oedd ar gael i'r staff mewn fformat copi caled yn fersiynau hŷn, mewn rhai achosion. Canfuom ddyblygiad mewn rhai achosion, gyda sawl fersiwn o'r un polisïau, ac nid oedd y staff bob amser yn eglur ynghylch pa bolisi oedd yn cael ei ddefnyddio ar y pryd. Ni allem fod yn sicr chwaith bod y rhain yn cael eu diweddaru'n barhaus oherwydd nad oedd dyddiadau adolygu ar y rhan fwyaf o bolisiau. Gwelsom fod mwyafrif y polisïau yn gyfyngedig o ran manylion ac roedd diffyg tystiolaeth i ddangos bod polisïau wedi cael eu cyfathrebu i'r staff neu i ddangos bod y staff wedi cydnabod eu bod yn eu deall.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod yr holl bolisiau a gweithdrefnau hanfodol ar waith, yn cynnwys manylion digonol ac yn cael eu diweddaru'n rheolaidd. Dylid cyfathrebu polisïau a gweithdrefnau i'r staff er mwyn sicrhau cysondeb o ran arferion gwaith ac eglurder ynghylch swyddogaethau a chyfrifoldebau'r staff. Dylai'r practis ystyried gwella trefn polisïau a gweithdrefnau fel y gellid dod o hyd iddynt yn rhwydd a'u bod yn hygyrch pan fydd eu hangen.***

Roedd y practis yn cynnal archwiliadau gorfodol drwy'r bwrdd iechyd a'r Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth ond nid oedd yn archwilio agweddau eraill ar y practis gyda'r nod o wneud gwelliannau. Awgrymwyd gennym fod y staff yn ystyried gwneud hyn mewn ffordd sy'n cynnig tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio cystal, fel y gellid cymryd camau a gwneud newidiadau.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cyfarfod i drafod materion practis mewn ffordd anffurfiol ac yn feunyddiol yn bennaf, oherwydd maint bach y practis. Roedd cyfarfodydd practis hefyd yn cael eu cynnal bob dau i dri mis ac roedd y rhain yn cael eu cofnodi, er bod cyfathrebu cyffredinol yn tueddu i fod yn fwy anffurfiol. Cynghorasom y practis i gadw nodiadau o bwyntiau pwysig unrhyw gyfarfodydd anffurfiol a gynhelir rhwng yr adegau hyn, er mwyn sicrhau bod trywydd archwilio eglur ar gael.

Roedd gan y practis Gynllun Datblygu'r Practis manwl a myfyriol yr oedd wedi ei ddatblygu trwy ei Rwydwaith Gofal Cymdogaeth. Roedd hwn yn cyflwyno nodau'r practis yn eglur a gallem weld bod cynnydd wedi cael ei wneud mewn rhai meysydd. Dywedodd staff uwch wrthym am eu cynlluniau ar gyfer y practis yn y dyfodol ac roeddent yn gweithio ar y cyd â phractis arall yn hyn o beth.

Roedd staff uwch yn mynychu cyfarfodydd y Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth ac yn defnyddio'r fforwm hwn yn ffordd o gynhyrchu gweithgareddau gwella ansawdd ac i rannu arfer da. Roedd y nyrs hefyd yn mynychu cyfarfodydd nyrs practis a oedd yn cynnwys elfen o ddatblygiad proffesiynol parhaus ac yn helpu i'w hysbysu am ddatblygiadau yn y practis ac yn lleihau arwahanrwydd.

*Dylai gwasanaethau iechyd sicrhau bod digon o staff â'r wybodaeth a sgiliau cywir ar gael ar yr amser cywir i ddiwallu'r angen. (Safon 7.1-Y Gweithlu)*

Roedd y staff yn gallu disgrifio eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau a nodwyd ganddynt eu bod yn hapus yn eu swyddi. Cadarnhaodd yr holl staff y siaradasom â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan staff uwch a bod ganddynt gyfleoedd i fynychu hyfforddiant perthnasol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael arfarniadau blynyddol ac roedd sampl o gofnodion staff yn ategu hyn. Roedd hyn yn rhoi cyfle i'r staff dderbyn adborth ar eu perfformiad, trafod anghenion hyfforddi a nodi a oes angen unrhyw gymorth ychwanegol.

Oherwydd sefydlogrwydd y tîm staff, anaml yr oedd staff newydd yn cael eu recriwtio. Fodd bynnag, roedd staff newydd wedi cael eu recriwtio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gofynasom am waith papur recriwtio ar gyfer y staff a chanfuom nad oedd unrhyw weithdrefn recriwtio ffurfiol ar waith. Dywedodd y staff wrthym nad oedd ganddynt weithdrefn gyfweld ar waith, nad oeddent yn gofyn am dystlythyrau fel mater o drefn ac nad oedd gweithdrefn ffurfiol ar waith i sicrhau bod gwiriadau priodol yn cael eu cynnal cyn cyflogi. Codasom ein pryderon yn hyn o beth a chynghori'r practis am ei ddyletswyddau o ran gweithdrefnau recriwtio.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod gweithdrefn recriwtio ffurfiol ar waith sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol. Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod unrhyw staff sy'n gweithio yn y practis nawr, a gafodd eu recriwtio heb gydymffurfio â'r canllawiau hyn, yn cael eu hasesu'n briodol ar gyfer eu haddasrwydd i gyflawni eu swyddogaethau a bod yr holl wiriadau perthnasol yn cael eu cynnal er mwyn diogelu aelodau staff a chleifion.***

Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi derbyn cyfnod ymsefydlu da ar gyfer gweithio yn y practis ac roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda wrth ddysgu eu swyddogaethau.

Dangosodd trafodaethau â'r staff fod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth gywir i gyflawni eu swyddogaethau a nodwyd yn y practis. Fodd bynnag, roedd diffyg gwybodaeth sy'n cael ei storio'n ganolog wedi'i chasglu am hyfforddiant staff, sgiliau ac archwiliadau priodol i'r practis allu dangos hyn yn llawn.

Roedd y practis yn cadw rhai tystysgrifau unigol ar gyfer cofnodion hyfforddiant staff ond nid oedd yn asesu anghenion staff ar hyn o bryd, yn unigol nac yn gyffredinol yn flynyddol, ac nid oedd ganddo syniad eglur o bynciau hyfforddi gorfodol. Ni allem fod yn sicr felly bod y practis yn cynorthwyo'r staff i gadw'n gyfredol o ran gofynion hyfforddi parhaus.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn cadw'n gyfredol o ran gofynion hyfforddi parhaus.***

## 5. Y camau nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r feddygfa deulu gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i ddelio â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Meddygfa South Street yn cael eu trin, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y bwrdd iechyd mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC am y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r bwrdd iechyd yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r bwrdd iechyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Caiff cynllun gwella'r bwrdd iechyd, unwaith y caiff ei gytuno, ei werthuso a'i gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Y Safonau Iechyd a Gofal**




Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gadwyd gan AGIC hyd yn hyn
- Sgyrsiau gyda chleifion a chyfweliadau â staff gan gynnwys meddygon, nyrsys a staff gweinyddol
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisïau a gweithdrefnau
- Archwilio'r trefniadau sydd ar waith o ran llywodraethu clinigol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal mewn meddygfeydd teulu.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis yn y cyfarfod adborth a gynhelir ar ddiwedd pob un o'n harolygiadau.

Tynnir sylw'r practis a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o'r arolygiadau hyn trwy lythyr gweithredu ar unwaith a nodir y canfyddiadau hyn (lle maent yn berthnasol) yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

*Atodiad A*

## Practis Meddygol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Meddygfa South Street

## Dyddiad yr arolygiad: 19 Hydref 2016

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | | |
| 6 | Dylai'r practis sicrhau bod staff nad ydynt yn glinigol sy'n gweithredu fel hebryngwyr ffurfiol yn ymwybodol o'r gofynion a chyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth y swyddogaeth hon a bod ganddynt fynediad at ganllawiau cyfredol ynghylch cyflawni'r swyddogaeth hon. | 4.1 | Rhoddwyd cyfrineiriau i'r holl staff nad ydynt yn glinigol er mwyn iddynt gael mynediad at hyfforddiant ar-lein mis Ionawr 2017 ar gyfer hebryngwyr ffurfiol ac i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r gofynion a'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth y swyddogaeth. Mae gan yr holl staff fynediad at ganllawiau cyfredol ynghylch cyflawni'r swyddogaeth hon, trwy'r hyfforddiant. Rhoddwyd amser penodol i bob aelod o staff fynd at yr hyfforddiant mewn amgylchedd tawel yn y feddygfa i gwblhau'r hyfforddiant. | Janet Hagerty | Mawrth 2017 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Rhoddir cod READ ar bob cais am hebryngwr.<br><br>Mae polisi hebryngwyr eisoes ar waith ac mae'r holl staff yn ymwybodol o'r polisi. Mae'r cleifion hefyd yn ymwybodol y gallant ofyn am hebryngwr ar unrhyw bryd trwy bosteri yn y dderbynfa, hysbysiadau ar lafar gan y staff, sgrin arddangos gwybodaeth cleifion yn yr ardal aros, y rhyngrwyd, a thaflen y practis. | | |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | | |
| 9 | Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod polisi iechyd a diogelwch llawn, lleoledig a chyfredol ar waith sy'n rhoi sylw i'r holl feysydd gorfodol. | 2.1; yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch | Rhoddwyd polisi iechyd a diogelwch lleoledig a chyfredol ar waith sy'n rhoi sylw i'r holl feysydd gorfodol gan gynnwys Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd, diogelwch tân, asesiadau risg, rheoli gwastraff, asesiadau risg cyfarpar sgrin arddangos, cyfarpar diogelu personol, anafiadau nodwydd, a damweiniau. Bydd hyn yn barhaus, ac ymgynghorir â'r staff yn rheolaidd ynghylch materion iechyd a diogelwch wrth iddynt godi, ond | Janet Hagerty | Cwblhawyd<br><br>Ionawr 2017 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ymgynghorir â'r staff yn ffurfiol hefyd mewn cyfarfodydd adolygu perfformiad iechyd a diogelwch rheolaidd, neu'n gynt pe bai angen. | | |
| 9 | Mae'n ofynnol i'r practis hysbysu AGIC am y camau a gymerir i sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant mewn perthynas â deddfwriaeth iechyd a diogelwch. | 2.1; yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch | Mae rheolwr y practis wedi cwblhau hyfforddiant iechyd a diogelwch trwy hyfforddiant ar-lein. Yn dilyn hyn, bellach mae'r holl staff wedi derbyn hyfforddiant iechyd a diogelwch mewnol, cyfredol, gan gynnwys codi a chario, diogelwch tân, a diogelwch, a oedd wedi cael eu pennu fel blaenoriaeth. Ymgynghorir yn rheolaidd â'r staff ynghylch materion iechyd a diogelwch wrth iddynt godi ac ymgynghorir yn ffurfiol mewn cyfarfodydd adolygu perfformiad iechyd a diogelwch rheolaidd, neu'n gynt pe bai angen. Cedwir llyfr damweiniau y mae'r staff i gyd yn ymwybodol ohono yn y dderbynfa. | Janet Hagerty | Chwefror 2017 |
| 10 | Mae'n ofynnol i'r practis hysbysu AGIC am y camau a gymerwyd i sicrhau bod iechyd, lles a diogelwch y staff (sy'n defnyddio cyfrifiaduron yn rheolaidd yn y gweithle) wedi | 2.1; yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch | Mae rhestr wirio ar gyfer asesiadau risg gweithfannau cyfarpar sgrin arddangos wedi cael ei chwblhau ar gyfer yr holl aelodau staff, yn unol â deddfwriaeth iechyd a diogelwch | Janet Hagerty | Ionawr 2017 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | cael eu hasesu, yn unol â deddfwriaeth iechyd a diogelwch bresennol. | | bresennol. Mae holiaduron cadw golwg ar iechyd wedi cael eu cwblhau gan yr holl aelodau staff. | | |
| 10 | Mae'n rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002 (COSHH). | 2.1; COSHH 2002 | Cwblhaodd rheolwr y practis hyfforddiant COSSH ym mis Ionawr 2017. Darperir hyfforddiant parhaus, yn unol â deddfwriaeth bresennol. Caiff yr asesiadau eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn dal i fod yn gyfredol ac i wirio a oes unrhyw newidiadau wedi bod yn y gweithle neu gyda'r cyfarpar neu gynhyrchion a ddefnyddir. Mae'r holl asesiadau yn cael eu cadw mewn ffeil unigol yn swyddfa rheolwr y practis, ac mae'r staff i gyd yn ymwybodol o hyn.<br><br>Mae ffurflenni asesiadau COSHH wedi cael eu cwblhau ar gyfer yr holl gemegion a ddefnyddir yn y feddygfa. Cedwir eitemau COSHH dan glo mewn cwpwrdd. Newidiwyd y cyflenwr i sicrhau bod y cynhyrchion a'r cyfarpar yn cael eu defnyddio'n ddiogel a'u bod yn cydymffurfio â | Janet Hagerty | Ionawr 2017 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | gofynion COSHH. Mae'r holl gemegion glanhau mewn cynwysyddion sydd wedi'u labelu'n briodol. Darperir cyfarpar diogelu personol, h.y. menig a ffedog, a chaiff y rhain eu gwisgo wrth drin cemegion ar bob amser. | | |
| 10 | Mae'n rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn cynnal asesiadau risg amgylcheddol ac asesiadau risg tân er mwyn nodi a rheoli unrhyw risgiau yn amgylchedd y practis. | 2.1; yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch | Cynhaliwyd asesiad risg tân ar 19 Ionawr 2017. Cynhaliwyd hwn gan gwmni Fire & Security Solutions Ltd. Derbyniwyd yr adroddiad, a chwblhawyd y cynllun gweithredu, a oedd yn nodi bod angen gwirio a dyddio'r diffoddwyr tân yn glir – trefnwyd a chwblhawyd hyn gan gwmni Fire-Rite UK Ltd. Labelu gweithredu ar gyfer diffoddwyr tân i gael eu gosod ger y diffoddwyr – trefnwyd a chwblhawyd hyn gan gwmni Fire-Rite UK Ltd. Argymhellwyd hefyd y dylid gosod diffoddwr dŵr naw litr neu ddiffoddwr chwe litr â phŵer taro uwch yn agos at ddrws yr allanfa yng nghoridor y de. Trefnwyd a gosodwyd hyn gan gwmni Fire-Rite UK Ltd. Mae 'arwydd | Janet Hagerty | Mawrth 2017 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | rhedeg' oedd i'w osod ar Ddrws Argyfwng 2 bellach wedi cael ei osod. Argymhellwyd hefyd y dylid profi system y larwm dân ar yr un pryd a'r un dydd yn wythnosol, a dylid cadw cofnod o'r profion hyn at ddiben arolygiadau. Mae'r gwaith o gynnal y profion hyn bellach wedi dechrau ac yn cael eu cynnal gan Rose George, sef yr aelod o staff enwebedig ar gyfer y cam gweithredu hwn (os nad yw ar gael, Janet Hagerty bydd yn gyfrifol).<br><br>Mae asesiad risg amgylcheddol wrthi'n cael ei gynnal gan reolwr y practis. Rhoddir y dogfennau mewn perthynas â materion diogelwch tân mewn ffeil unigol, ynghyd â'r asesiad risg tân. Mae hyfforddiant staff wedi cael ei gynnal i gynnwys beth i'w wneud wrth ddarganfod tân, sut a phryd i seinio'r larwm, a gweithdrefnau ar gyfer rhybuddio aelodau o'r cyhoedd ac ymwelwyr a'u cyfeirio at allanfeydd. Trefniadau ar gyfer galw'r gwasanaeth tân. Y | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu’r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | weithdrefn adael ar gyfer pawb yn yr adeilad er mwyn iddynt gyrraedd man ymgynnull a man diogelwch dynodedig. Lleoliad cyfarpar ymladd tân, a'r trefniadau i'w ddefnyddio. Mae'r holl staff wedi derbyn hyfforddiant diogelwch tân ar-lein. Y swyddog enwebedig sy'n gyfrifol am ddiogelwch tân yw Janet Hagerty, a'r dirprwy swyddog yw Rose George. Mae ffeil cofnodion hyfforddiant ac ymarferion tân wedi cael ei rhoi ar waith. | | |
| 11 | Mae’n rhaid i’r practis sicrhau bod trefniadau argyfwng wedi’u ffurfioli ar waith o ran cynllunio wrth gefn a rheoli argyfyngau iechyd arwyddocaol. | 2.1; yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch | Mae gan y practis brotocol ar waith ar gyfer argyfyngau iechyd arwyddocaol, e.e. epidemig ffliw'r moch. Mae'r holl gyfarpar ar gael ar y safle (cyfarpar diogelu personol). Mae'r staff i gyd yn ymwybodol o'r hyn y dylid ei wneud yn ystod y math hwn o argyfwng. Os na ellir defnyddio'r brif feddygfa ar y pryd am ryw reswm, e.e. tân, byddwn yn gallu defnyddio ein meddygfa gangen. Mae'r holl rifau cyswllt angenrheidiol ar gyfer trydanwyr, adeiladwyr, y bwrdd dŵr ac ati yn y | Janet Hagerty | Rhagfyr 2016 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | dderbynfa. | | |
| 11 | Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod polisi rheoli heintiau eglur ar waith, bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran y polisi, a bod y polisi ar gael yn rhwydd i'r holl staff. | 2.4 | Mae'r polisi rheoli heintiau wedi'i adolygu a'i ddiweddaru.<br><br>Mae'r staff i gyd yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran y polisi. Mae copïau papur ohono ar gael i'r holl staff ac mae hefyd ar fwrdd gwaith y cyfrifiaduron o dan 'Polisïau'r Practis'. | Lynne Thomas | Ionawr 2017 |
| 12 | Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod systemau ar waith i fonitro safonau rheoli heintiau a chymryd camau i gydymffurfio â chanllawiau rheoli heintiau. | 2.4 | Mae polisi rheoli heintiau ar waith yn y practis y mae'r staff i gyd yn ymwybodol ohono. Cedwir hwn mewn adran ar wahân o bolisïau'r practis, ac mae'n cynnwys anafiadau nodwydd ac arwyddion golchi dwylo. Dylid defnyddio cyfarpar diogelu personol lle bo'n angenrheidiol, ac mae'r holl staff perthnasol yn ymwybodol o hyn. Ymgymerir ag archwiliadau ar gyfer unrhyw fân lawdriniaethau a gyflawnir.<br><br>Caiff mesurau rheoli heintiau eu monitro'n barhaus gan reolwr y practis a nyrs y practis, a fydd hefyd yn cwblhau hapwiriadau glendid yn y feddygfa. Byddant yn gyfrifol am | Lynne Thomas<br><br>Janet Hagerty | Chwefror 2017 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | unrhyw archwiliadau neu asesiadau risg perthnasol hefyd. Cedwir cofnod o hapwiriadau ac unrhyw gamau a allai fod yn ofynnol.<br><br>Bydd y staff yn ymgymryd â hyfforddiant hylendid dwylo ac unrhyw hyfforddiant perthnasol arall. Cedwir cofnod yn eu ffeil unigol o unrhyw hyfforddiant yr ymgymerir ag ef.<br><br>Rydym yn cymryd camau i leihau'r perygl o heintio rhwng cleifion a staff, h.y. rhoddir hylif dadheintio dwylo yn y dderbynfa, y man aros, y toiledau a'r ystafelloedd ymgynghori, ynghyd â thywelion papur a pheiriannau dosbarthu sebon. Mae'r staff yn cymryd cyfrifoldeb am eu rôl eu hunain ac maent wedi derbyn hyfforddiant rheoli heintiau, a fydd yn barhaus yn y dyfodol. Bydd trafodaethau yn ystod cyfarfodydd y practis mewn perthynas â materion rheoli heintiau.<br><br>Mae'r holl staff – clinigol, gweinyddol | | |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu’r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | a staff cadw tŷ – yn gwisgo gwisg addas ar gyfer yr amgylchedd gweithio.<br><br>Mae'r practis yn cael ei lanhau'n ddyddiol, a defnyddiwr mopiau a bwcedi o wahanol liwiau mewn mannau penodol, e.e. theatr mân lawdriniaethau, y cyntedd. Mae'r staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol. | | |
| 12 | Mae'n ofynnol i'r practis roi tystiolaeth i AGIC i ddangos bod pob aelod o'r tîm clinigol wedi cael brechiad imiwnedd Hepatitis B – ynghyd â'u cofnodion imiwnedd dilynol. | 2.4 | Mae tystiolaeth o frechiadau Hepatitis B ar gael ar gyfer aelodau o'r staff clinigol. Mae'r gwaedydd bellach wedi derbyn ei chwrs llawn o frechiadau Hepatitis B.<br><br>Tan fod canlyniadau gwrthgorff y gwaedydd ar gael, gwnaeth hi barhau i ddefnyddio menig/ffedog i'w diogelu wrth gyflawni ei dyletswyddau gwaedu, oll dan fentoriaeth nyrs y practis. Cyflawnwyd asesiad risg o'r gwaedydd gan hyfforddwr ei chwrs yn Ysbyty Ystrad Fawr, a nodwyd ei bod hi'n ddiogel i gwblhau ei | Janet Hagerty | Mawrth 2017 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | dyletswyddau gwaedu. | | |
| 13 | Dylai'r practis adolygu pob claf diabetig Math 2 er mwyn sicrhau bod statinau'n cael eu rhagnodi'n gyson a bod manylion digonol yn cael eu cadw pan fo arfer rhagnodi unigol yn wahanol i'r canllawiau a argymhellir. | 2.6 | Adolygwyd yr holl gleifion â diabetes Math 2 ym mis Rhagfyr 2016, ac o'r holl gleifion oedd ar y gofrestr ddiabetig, canfuwyd bod pump ohonynt wedi gwrthod statinau. Mae hyn wedi'i gofnodi yng nghofnodion meddygol y cleifion. | Lynne Thomas | Rhagfyr 2016 |
| 14 | Mae angen adolygu a diweddaru'r polisïau amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion agored i niwed er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys manylion digonol a rhifau cyfeirio lleol a'u bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau Cymru gyfan. | 2.7 | Mae'r polisïau amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed wedi cael eu diweddaru, eu hychwanegu at bolisïau, a'u diweddaru. Maent yn cynnwys manylion digonol a rhifau cyfeirio lleol ac maent yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau Cymru gyfan. Mae'r holl staff yn ymwybodol o'r polisïau. Gellir mynd at y polisi trwy'r bwrdd gwaith. Mae'r holl rifau atgyfeirio lleol ar gael ar yr hysbysfwrdd yn y dderbynfa. Mae'r rhain wedi cael eu diweddaru'n ddiweddar, a thrafodwyd hyn yn ein | Janet Hagerty | Cwblhawyd Ionawr 2017 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | cyfarfod practis (mis Mawrth 2017), ac mae'r rhifau cyswllt blaenorol wedi cael eu newid. | | |
| 14 | Rhaid i'r practis sicrhau bod hyfforddiant amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed yr holl staff yn gyfredol ac ar lefel sy'n briodol i'w swyddogaeth. | 2.7 | Mae'r holl staff wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn plant hyd at Lefel 2. Mae'r staff clinigol wedi'i gwblhau hyd at Lefel 3. Mae'r holl staff wedi cael eu cofrestru ar gyfer hyfforddiant ar-lein, a gallant fynd ato ar adeg a benodir gan reolwr y practis a chwblhau cyrsiau perthnasol.<br><br>Mae'r staff i gyd wedi cwblhau hyfforddiant oedolion sy'n agored i niwed Lefel 1, ac maent wrthi'n cwblhau Lefel 2.<br><br>Mae'r staff wedi dangos diddordeb mewn mynychu 'hyfforddiant diwrnod allan' hefyd, ac ystyrir hyn yn y dyfodol agos. | Janet Hagerty | Mawrth 2017 |
| 15 | Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod proses wedi'i ffurfioli ar waith, a bod yr holl staff yn ei deall ac yn cydymffurfio â hi, wrth reoli gohebiaeth a dderbynnir gan y practis, a sicrhau bod hyn yn | 3.2:3.4 | Gweithredir ar bob gohebiaeth yn ddyddiol. Mae aelod enwebedig o'r staff yn agor y post i gyd ac yn rhoi stampiau dyddiad arno ac yn ei sganio. Yna, mae naill ai nyrs y practis neu reolwr y practis yn rhoi | Janet Hagerty | Cwblhawyd |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | digwydd mewn modd cyson ac amserol. | | cod READ ar y post. Os nad yw aelod o staff ar gael i sganio'r post, yna mae nyrs y practis neu reolwr y practis yn codi'r ohebiaeth, ac yn sganio a rhoi cod READ ar yr holl bost. Os nad yw'r nyrs neu'r rheolwr ar gael am unrhyw reswm, bydd y meddyg teulu yn rhoi cod READ ar y post sydd wedi cael ei sganio. Gwneir hyn yn gyson bob dydd. | | |
| 16 | Dylai'r staff sicrhau bod proses fewnol eglur ar waith sy'n dangos atebolrwydd o ran rhannu negeseuon a chymryd camau yn eu sgil. | 3.2; 3.4 | Cedwir llyfr yn y dderbynfa er mwyn i'r holl staff rannu negeseuon a chymryd camau yn eu sgil. Mae gofyn i'r holl staff edrych yn y llyfr yn ddyddiol, llofnodi unrhyw negeseuon angenrheidiol, a chymryd camau yn eu sgil. Soniwyd am hyn eto mewn cyfarfod practis. Mae polisi negeseuon mewnol ar gael ac mae'r staff i gyd yn ymwybodol ohono. Mae rheolwr y practis yn gwirio'r llyfr negeseuon yn ddyddiol a, phan nad yw hi ar gael, mae Rose George yn gwirio'r llyfr. Mae gennym lyfr hefyd i nodi unrhyw farwolaethau a allai fod wedi digwydd. Mae pob cysylltiad | Janet Hagerty | Cwblhawyd<br>Rhagfyr 2016 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu’r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | dros y ffôn gan gleifion yn cael ei gofnodi yn y system gyfrifiadurol ynghyd â ffurflen ymgynghoriad ffôn ysgrifenedig y mae'r person sy'n cymryd y neges yn ei llofnodi a'r person sy'n gweithredu ar y neges, e.e. y meddyg teulu, hefyd yn ei llofnodi i ddangos bod hyn wedi digwydd. Rydym yn defnyddio gwasanaeth *Daybook Tasks*, sy'n rhan o raglen *Vision*, a gall pawb sy'n mewngofnodi i Vision weld y rhain yn ddyddiol. | | |
| 16 | Dylai’r practis adolygu’r holl systemau cyfathrebu mewnol i ystyried a ellid gwneud gwelliannau ac i sicrhau bod ffurfioli ac atebolrwydd digonol wedi eu cynnwys yn y systemau. | 3.2; 7.1 | Ar gyfer cysylltiadau dros y ffôn gan gleifion y mae angen ymgynghoriad ffôn arnynt, cwblheir ffurflenni rhagnodi dros y ffôn, a rhoddir y rhain i'r meddyg teulu er mwyn iddo roi sylw iddynt. Mae'r meddyg teulu yn llofnodi'r rhain ac maent yn cael eu cadw mewn ffeil ar wahân am o leiaf un mis. Mae gofyn i'r aelod o staff sydd wedi cymryd y neges gymryd camau gweithredu ynghylch unrhyw ymholiadau, lle bo'n bosibl, neu drosglwyddo'r neges at unigolyn sy'n | Janet Hagerty | Cwblhawyd<br>Rhagfyr 2016 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | gallu cymryd camau gweithredu. | | |
| 19 | Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod cofnodion papur cleifion yn cael eu storio yn unol â gofynion deddfwriaeth genedlaethol. Yn benodol, dylai cofnodion cleifion sy'n cael eu storio y tu ôl i'r dderbynfa ar hyn o bryd gael eu storio'n ddiogel. | 6.2; 3.4; 3.5 | Mae'r practis yn symud tuag at system gwbl electronig, a bydd holl gofnodion papur cleifion yn cael eu sganio a byddant ar gael yn electronig. Cynigir goramser i'r staff gwblhau'r cam hwn. Hyd hynny, rhaid cadw'r drws sy'n arwain trwy'r dderbynfa dan glo ar bob amser. | Janet Hagerty | Rhagfyr 2017 |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | | |
| 20 | Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod gan reolwr y practis ddigon o amser ar gael i alluogi'r staff i gyflawni eu cyfrifoldebau. | Llywodraethiant, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd; 7.1 | Mae staff rhan amser yn cynnal trafodaethau ar hyn o bryd gyda'r bwriad o gynyddu eu horiau gwaith cyfredol. Mae cynlluniau ar waith hefyd i gau'r feddygfa gangen yn ôl pob tebyg, a fydd yn rhyddhau'r derbynnydd sy'n cyflenwi yno ar hyn o bryd i lenwi ei horiau yn y brif feddygfa. Bydd hyn yn sicrhau bod mwy o amser rheoli'r practis ar gael. | Dr Das | Medi 2017 |
| 20 | Dylai'r staff egluro pa bolisi chwythu'r chwiban sydd ar waith ar hyn o bryd a dylent allu dangos bod yr holl staff wedi cael eu hysbysu | 7.1 | Roedd dau bolisi chwythu'r chwiban yn ffeil bolisïau'r practis, a oedd wedi cael eu dyblygu. Mae un wedi'i ddiweddaru ac mae'r llall bellach | Janet Hagerty | Cwblhawyd Ionawr 2017 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | am y polisi hwn. | | wedi'i ddileu. Sicrhawyd bod yr holl staff yn ymwybodol o'r polisi chwythu'r chwiban a ddefnyddir, a bod yr holl bolisïau bellach ar gael ar y bwrdd gwaith. Maent wedi derbyn copi o'r polisi chwythu'r chwiban hefyd. | | |
| 21 | Dylai'r practis sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau gorfodol ar waith, a'u bod yn cynnwys manylion digonol ac yn cael eu diweddaru'n rheolaidd. Dylid cyfathrebu polisïau a gweithdrefnau i'r staff er mwyn sicrhau cysondeb o ran arferion gwaith ac eglurder ynghylch swyddogaethau a chyfrifoldebau'r staff. Dylai'r practis ystyried gwella trefn polisïau a gweithdrefnau fel y gellid dod o hyd iddynt yn rhwydd a'u bod yn hygyrch pan fydd eu hangen. | Llywodraethiant, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd; 7.1 | Mae'r holl bolisïau gorfodol wrthi'n cael eu diweddaru ac mae hyn yn cael ei ddogfennu wrth i bob un gael ei ddiweddaru.<br>Mae'r polisïau wedi cael eu trefnu ac maent ar fwrdd gwaith pob cyfrifiadur i'r staff gael mynd atynt yn rhwydd.<br>Mae'r staff i gyd yn ymwybodol o hyn. | Janet Hagerty | Mawrth 2017 |
| 22 | Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod gweithdrefn recriwtio ffurfiol ar waith sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol. Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod unrhyw | 7.1 | Os bydd angen i ni gyflogi aelod newydd o staff yn y dyfodol, byddwn yn dilyn gweithdrefn recriwtio ffurfiol sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol sy'n | Janet Hagerty | Ionawr 2017 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu’r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | staff sy’n gweithio yn y practis nawr, a gafodd eu recriwtio heb gydymffurfio â’r canllawiau hyn, yn cael eu hasesu’n briodol ar gyfer eu haddasrwydd i gyflawni eu swyddogaethau a bod yr holl wiriadau perthnasol yn cael eu cynnal er mwyn diogelu aelodau staff a chleifion. | | berthnasol i gyflogi aelodau newydd o staff.<br>Mae holl aelodau'r staff wedi cael eu hasesu ar gyfer eu haddasrwydd i gyflawni eu swyddogaethau ac mae'r holl wiriadau perthnasol wedi cael eu cwblhau, e.e. tystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. | | |
| 23 | Mae’n rhaid i’r practis sicrhau bod yr holl staff yn cadw’n gyfredol o ran gofynion hyfforddi parhaus. | 7.1 | Mae'r holl staff bellach wedi'u cofrestru ar gyfer hyfforddiant ar-lein ac maent yn gallu mynd at borth y GIG yn rhydd. Ar gyfer unrhyw hyfforddiant yn y dyfodol y mae'n rhaid ei gwblhau oddi ar y safle, caniateir i'r staff fynychu ar gyfer eu gofynion hyfforddiant parhaus ar adeg benodedig mewn man tawel o'r adeilad. Trafodir gofynion hyfforddiant yn ein cyfarfodydd practis. Mae gan yr holl staff ffeil unigol, a chedwir cofnod o'r cyrsiau a gwblhawyd ym mhob un. Mae rheolwr y practis yn sicrhau bod yr holl staff wedi cydymffurfio â hyfforddiant statudol ac unrhyw hyfforddiant angenrheidiol | Janet Hagerty | Parhaus |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu’r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | arall. Mae'r holl hyfforddiant yn barhaus a chaiff ei ddiweddaru yn ôl yr angen. Mae'r holl staff yn ymwybodol o anghenraid gofynion hyfforddiant parhaus. Bydd rheolwr y practis yn sicrhau bod yr holl staff yn parhau i fod yn gyfredol â'u gofynion hyfforddiant trwy gyfarfodydd practis. | | |

**Cynrychiolydd y practis:**

**Enw (llythrennau bras):** **Janet Hagerty.........................................................**

**Teitl:** **Rheolwr y Practis..................................................**

**Dyddiad:** **23 Ionawr 2017 .......................................................**